



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

***Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914–1918**

**Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf – cais enghreifftiol a gwerthusiad:
Ysgol Gyfun Aberaeron**

ISBN 978 1 4734 3749 4
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2015
WG25545

Blwch y cynnig

Teitl y prosiect: Murlun coffau cyfraniad lleol ardal Aberaeron i ymdrech y Rhyfel Byd Cyntaf.

Y deilliannau dysgu: Bydd y dysgwyr yn dysgu am brofiadau pobl o'u hardal yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn dod i ddeall y cyfnod yn well. Byddant yn meithrin cysylltiadau gyda'r gymuned ac yn cael y profiad o weithio fel tîm gan hybu eu sgiliau cydweithio a chreadigol. Bydd yr hanes yn cael ei gofnodi mewn murlun coffadwriaeth ar furiau'r ysgol Uwchradd, a fydd ar gael am genedlaethau.

Y dysgwyr fydd yn cymryd rhan: Disgyblion Blwyddyn 9 (tua 100)

Bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 5 ysgolion cynradd lleol ymweld â'r ysgol uwchradd i weld y cynlluniau. (tua 30) Bydd gwersi a gweithgareddau yn cael eu trefnu i gyd-fynd â'r prosiect a bydd y disgyblion cynradd yn gallu cynnig syniadau am yr hyn fydd yn y murlun.

Amlinelliad o'r gweithgareddau gydag amserlen fras:

Yn ystod yr haf (Gorffennaf 2014), bydd disgyblion cynradd yn ymweld â'r ysgol uwchradd i ddysgu am y rhyfel, hanes lleol y rhyfel ac i gyfrannu syniadau at y murlun.

Bydd y disgyblion yn cwrdd ag aelodau o'r gymuned sydd eisoes wedi sefydlu 'Pwyllgor Coffa Rhyfel Byd Cyntaf Tref Aberaeron'. Mae arteffactau lleol, llythyrau, atgofion a phob math o ddeunydd hanesyddol lleol wedi eu casglu. Byddant yn cael amser i ymchwilio i wahanol straeon a chymeriadau lleol a'u cyfraniad i ymdrech y Rhyfel yn y gwersi hanes. (Medi 2014)

Bydd y disgyblion yn cynllunio (Medi 2014) ac yna yn creu'r murlun gydag arbenigedd arlunydd lleol. Bydd elfennau lleol yn amlwg yn y gwaith. (Hydref 2014)

Cysylltiadau cymunedol

Byddant yn meithrin cysylltiadau gyda'r gymuned drwy gael y cyfle i gydweithio gydag aelodau o Bwyllgor Coffa'r Rhyfel tref Aberaeron ac yn creu cofnod celfyddydol o'r hyn a ddysgwyd . Fe fydd yn gofnod gweledol amlwg fydd ar gael i holl ddisgyblion yr ysgol, i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 sy'n aml yn ymweld â'r ysgol ar ddiwrnodau blasu a phontio. Fe fydd y murlun mewn lle amlwg iawn yn yr ysgol, bydd yn gofnod am flynyddoedd i ddod ac i'r gymuned ehangach sy'n defnyddio'r ysgol fel canolfan addysgu.

Canlyniadau/gwaddol?

Casglu tystiolaeth leol. Yn creu cofnod celfyddydol. Bydd yn arwain dysgu y dyfodol. Bydd y murlun yn ysgogi trafodaeth ymhlith y disgyblion ac yn symbyliad i wersi Hanes yn yr ysgol, am flynyddoedd i ddod. Y gobaith yw y bydd yn ysbrydoli nifer o ddisgyblion i ddod o hyd i wybodaeth am eu hanes lleol.

Gwariant tybiedig fesul eitem:

Cost athro llenwi am ddiwrnod i baratoi adnoddau ac i gywain gwybodaeth a chael cyfarfod gydag aelodau o bwyllgor coffa Y Rhyfel Byd Cyntaf y dref = 1 diwrnod @ £187

Paent ac adnoddau arlunio = £213

Artist lleol i weithio gyda'r disgyblion = £600.

Ffurflen hawlio grant cofio Rhyfel Byd Cyntaf: Project Ysgol Gyfun Aberaeron Gwerthusiad o'r prosiect:

Bu'n brosiect gwych i'r ysgol gan iddo gryfhau cysylltiadau gyda'r gymuned a thanio chwilfrydedd y disgyblion am eu hardal yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth aelodau o Gymdeithas Aberaeron i rannu hanesion am y rhyfel gyda'r disgyblion, hanes trigolion yr ardal a chyn ddisgyblion y Ysgol Gyfun Aberaeron. Fel rhan o gydweithio a chasglu tystiolaeth leol, paratôdd y disgyblion waith ar gyfer arddangosfa 'Amser i Gofio', y Gymdeithas yng Nghapel Peniel yn y dref. Cafodd y disgyblion ymweld â'r arddangosfa a chael mwy o straeon lleol am y Rhyfel Mawr yn y capel gan Euros Lewis o'r theatr leol sef Theatr Felin Fach. Ar ôl casglu eu gwybodaeth yn lleol dechreuwyd ar gynllunio'r murlun. Cafodd disgyblion ysgolion cynradd y cylch ar ddiwrnod pontio y cyfle i gynllunio a chyd weithio gyda'r disgyblion. Mae'r murlun yn llawn cyfeiriadau lleol ac mae wedi ei ddylunio mewn ffordd glyfar iawn gan y disgyblion, yn llawn negeseuon a delweddau grymus. Cafwyd cyfle i drafod cyfraniad yr ardal mewn mwy o ddyfnder yn y gwersi hanes. Mae'r prosiect wedi dyfnhau gwybodaeth y disgyblion am yr ardal yn ystod y rhyfel, y colledion, cyfraniad y merched i waith y Rhyfel, ac o'u hanesion teuluol personol eu hunain. Diolch am y cyfle i ymgymryd â phrosiect o'r math hwn. Mae wedi bod yn gyfle amhrisiadwy. Cafodd y disgyblion weithio ag artist talentog, rydym wedi cryfhau cysylltiadau yn y gymdeithas rhwng ysgolion a'r gymuned, ac yn bwysicach oll addysgwyd y disgyblion am eu gorffennol sy'n hollbwysig er mwyn deall a dysgu am y presennol. Bydd y murlun yn destun trafodaeth a dysg yn y gymdeithas am ddegawdau i ddod.

Ôl nodyn- cafodd y gwaith ei gwblhau yn gynt na'r hyn a nodwyd yn wreiddiol. Llwyddwyd i gwrdd â'r holl amcanion.

Dyma rai lluniau o'r gwaith.

Gwefannau- www.facebook.com/pages/Ysgol-Gyfun-Aberaeron/383015885126816
www.ygaberaeron.org.uk
www.cymdeithasaberaeron.org
www.cambrian-news.co.uk

Mae'r gwefannau neu'r tudalennau gwe y mae'r Wefan yn cysylltu â hwy (gan gynnwys Ardaloedd Rhanddeiliaid) wedi eu cynnwys er gwybodaeth yn unig, ac nid ydynt wedi eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y cynnwys ar unrhyw wefannau neu dudalennau gwe sydd â dolennau iddynt o'r Wefan neu sydd â dolennau ynddynt i'r Wefan (gan gynnwys yr Ardaloedd Rhanddeiliaid), ac nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am unrhyw golledion neu gosbau o unrhyw fath o ganlyniad i'ch gweithred chi o glicio trwodd i wefannau neu Ardaloedd Rhanddeiliaid.